

**CYMRDEITHAS BOB OWEN**



Elusen Gofrestredig Rhif 507948

## Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMRDEITHAS BOB OWEN**  
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn  
(Awst - Gorffennaf neu Ionawr - Rhagfyr)  
i'w anfon i'r Trysorydd

**SWYDDOGION**  
*Is-Cadeirydd:* E. Wynn James  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion  
*Ysgrifennydd:* Gwyn Tudur Davies  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion  
(01970) 623174  
*Trysorydd:* Gwyndaf Roberts  
Cae'r Hafod, Maes Caled, Dolgellau LL40 1UF  
(01341) 423959  
*Golygydd:* Mel Williams  
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn, Y Bala, Gwynedd LL23 7TA  
ebost:tanycastell@yahoo.com  
(01678) 540652

# Golygyddol

WEDI llwyddiant y dathlu ym Mhorthmeirion, dair blynedd yn ôl bellach, dyma fentro trefnu un arall, ond ym Machynlleth y tro hwn. Rydym hefyd am gynnal ein cyfarfod blynyddol yno, yn hytrach nag yn yr Eisteddfod. Gobeithio y byddwch yn heidio yno gan ddod â'ch cynigion a'ch syniadau hefo chi. Rydym yn ceisio gwneud y Gymdeithas yn un gwerth chweil, ond mae'n rhaid cael eich cefnogaeth chi.

Y Nadolig hwn, am y tro cyntaf, fe dderbyniodd pob aelod ffurflen Rhodd Gymorth. Mae tua thri chant wedi ymateb, a thrwy eu hymdrechion nhw mi fydd y Gymdeithas yn derbyn £1.50 y pen. Ond yn anffodus, mae yna gannoedd hefyd heb ddychwelyd y ffurflen, sy'n eitha trist. Nid yw'n costio dim i'r aelod, heblaw am gost stamp, ond mae o gymaint o werth i'r Gymdeithas. Allwn ni ddim datblygu heb

arian. Mae yna nifer o aelodau blwyddyn heb dalu hyd yma ychwaith. Mae'n costio stamp ac amser i anfon llythyr i atgoffa'r rhain. Felly, taer erfyniaf arnoch i dalu'ch tâl aelodaeth yn ddiymdroi. Dyna pam fod archeb banc mor ddefnyddiol i'r Trysorydd ag eithrio eich bod yn mynychu'r Eisteddfod bob blwyddyn ac yn talu yno. Dwi'n siŵr y gallai llawer ohonoch annog cyfaiil i ymuno hefyd. Pe byddai pawb yn talu, mi fyddai'r Gymdeithas yn ddiogel. Bellach, mae yna 1200 ar y llyfrau, ond mae cael arian gan rai fel ynnu gwaed allan o garreg. Hoffwn ddiolch i'r rhai triw sy'n talu'r rheolaidd. Nhw sy'n ein cadw, ar y funud.

Ar Ionawr 29 daeth dros ugain o aelodau i'r Llyfrgell Genedlaethol ar achlysur taith gyntaf y Gymdeithas. Cafodd pawb fodd i fyw yn mynd trwy'r trysorau, a'r awr a hanner o ffilmiau o bob cwr o Gymru wedi plesio pawb. Hoffwn ddiolch i swyddogion y Llyfrgell am eu gwaith yn gosod pob un o'r mân ffilmiau hefo'i gilydd, ac yn enwedig i Gwyn Tudur Davies, ein Hysgrifennydd, am drefnu'r holl ddiwrnod.

## Pegi Lloyd Williams a'r HEN GLOCHYDDION

**B**U llawer o ddyfalu pam yr enw 'Ffynnon Ddurllyd Cegin Arthur' yn yr hen gaer Geltaidd o Ddinas Dinorwig, nes cael y wybodaeth trwy law John Edward Williams, Rhyd-y-Fuwch, Llanddeiniolen, Clochydd Y Fam Eglwys, Hynafiaethwr a Bardd (LL.G.C. 53). John E. Williams sydd yn cyflwyno'r hanes.

### Ffynnon Cegin Arthur

Bu i Dr A. Wynn Williams MD, MRCS, LSA o Gaernarfon a Llundain, gyhoeddi llyfr bach rhywle yng nghanol y 19 ganrif, ac i John Edward Williams, y clochydd, ei brynu, ac ymhen amser daeth hwn i law John E. Williams. Dyma brawf eto mai dynion dysgedig eu dydd oedd y clochyddion. Dywedodd Dr A. Wynn Williams y byddai pererinon o bell ac agos yn dod i'r ffynnon am iachâd, a 'Cegin' ydi enw'r afon gerllaw. Mae'n dweud mai man cysegredig y derwyddon oedd y ffynnon - dŵr meddyginiaethol yng nghanol coedwig dderw. Yn un o'r pyllau yn is i lawr y boddodd Dafydd Ddu Eryri. Ond y mae chwedloniaeth, meddai Dr Williams, yn dweud fod Arthur a'i farchogion, ar ôl blino ar ryfela a bradwriaeth, wedi cilio i'r mynyddoedd ac wedi trigo yn yr ogof, sydd yn cadarnhau'r hen chwedl hwyrach,

Yng nghyfrin ogo'r tylwyth teg  
Wrth odre'r dal Elidir  
Yng nghanol ei farchogion dewr  
Gorffwysa'r Brenin Arthur.

Trwy droi at ysgrif John E. Williams, o dan y pennawd 'Pwy a'm dwg' (LL.G.C.74) cawn fwy o hanes yr hen glochydd.

*John Edward Williams oedd y clochydd yn Llanddeiniolen yn fy amsar i. Roedd yn fardd gwlad, yn hynafiaethwr, ac yn gallu ysgrifennu*

### Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD**  
**ERBYN MAI 3**

### Gwasanaeth y Deillion

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu  
tapiau llafar o erthyglau sy'n  
ymddangos yn y Casglwr i  
Danysgrifwyr y Gymdeithas.  
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â  
**Miss Anne K. Till (01970) 872077**

*copperplate. (Nid yr unig un i mi ddod ar ei draws). Roedd o'n byw o dan y cob yn Erw Fforch, oedd yn cludo tren y chwarel tros y pant. Amcangyfrifir iddo gladdu tua mil yn Llanddeiniolen. Roedd yn cadw cofnodion mewn llyfr wedi ei rawmo â chroen gafr. Doedd wîr i'r un ferch fynd i'r fynwent yn bennoeth. Byddai'n dweud fod capten y llong a aeth â Napoleon i St. Helena wedi'i gladdu yn Llanddeiniolen.'*

Byddai'r clochydd yn cael cyfle i ennill rhyw dâl adeg priodasau gan y byddai yn rhaid rhoi gwybod i gymdogion a theulu y dyddiad a'r amser. Yn fwyaf arbennig i roi gwybod fod disgwyl i'r rhai oedd yn cael eu hysbysu gyflwyno anrheg i'r deuddyn. Os byddai teuluoedd y par ifanc wedi rhoi anrhegion adeg priodasau eraill yna byddai disgwyl pendant ar i'r rhodd gael ei chydabod a'i thalu'n ôl. Byddai'n rhaid cael rhywun i fynd o gwmpas y ffermydd gyda'r hysbyseb, a medrai hyn gymeryd cryn amser ac ymdrech oherwydd y pellter. Cadwyd rhestr fanwl o'r derbyniadau, a byddai'n rhaid i'r par yn eu tro 'dalu'n ôl' pan ddelai ryw briodas arall i fyny. Yn wir, yr un oedd y drefn adeg angladdau hefyd - pawb o'r bron yn dod â rhywbeth efo nhw wrth ddod draw i gydymdeimlo, a rhestr fanwl yn cael ei gadw er mwyn talu'r gymwynas yn ôl.

### Cwrw'r Clochydd

Ar y naill achlysur neu'r llall, dau beth oedd yn hollol angenrheidiol - cwrw a baco. Byddai'r tad yn feddw dwll yn mynd adref ar ôl geni y plant. *Home stark drunk.* (Welsh Folk Customs, Trefor M. Owen). Byddai gan y clochydd hawl i werthu cwrw - Cwrw'r Clochydd a dyma gyfle arall i wneud rhyw geiniog neu ddwy os y mynnai. Gwyddom nad oedd fy hen-hen daid Siôn Ifan, Penmachno, yn ei werthu gan iddo wneud rhyw esgus mai nid cwrw oedd o yn ei yfed pan ddaeth y person draw i'r tŷ a'i ddal.

### Siot Cynhebrwng

Roedd y Siot Cynhebrwng yn chwarae rhan bwysig iawn ar ddydd yr angladd. Byddai pawb wedi cyfrannu at hwn, a disgwyliad i bawb gymryd ohono hefyd, neu byddai'r teulu tralodus a chyfeillion agos yn edrych yn amheus ac yn drwgdybio'r ymateb. Amcan y siot oedd rhoi cyfle i bawb oedd yn 'talu parch' droi mewn i'r dafarn i gydyfrangi o'r bywd a'r diod efo'r teulu. Cedwid rhestr fanwl eto o enwau y rhai oedd wedi cyfrannu a'i gyflwyno i'r teulu, a byddai disgwyl iddynt hwythau yn eu tro dalu'r gymwynas yn ôl pan fyddai

**FFYNNON CEGIN ARTHUR,**

1877.

**FFYNNON DDURLYD YN LLANDEINIOLEN,**  
**GER CAERNARFON;**

YN OSOD ALLAN HANES A

**RHINWEDD IACHAOL EI DYFROEDD, YN NGHYDA CHYF-**  
**ARWYDDIADAU PA FODD I'W DEFYDDIO;**

AC YN EDYF I'W TUDURWYDD.

Disgrifiad o Weddillion Prydeinig a Derwyddol, a gwrthdychychan  
ereill o ddyddierdeb yn y Gwynyddogath.

**Gan A. WYNN WILLIAMS, M.D., M.R.C.S., a L.S.A.**  
20, King Street, Portland Sp., London.

**CAERNARFON:**  
ANGRAFFWID A OUDROEDDUS GAN H. HUGHES, CASTLE SQUARE.  
Pris Chw'rhobing.

*Ffynnon Cegin Arthur.*

profedigaeth wedi dod i ran un o'r rhai oedd â'u henwau ar y rhestr. Nid oedd disgwyl i bawb aros yn hir a llymeitian, ond rhaid oedd troi i mewn a gwlychu gwefus 'i dalu'r gymwynas olaf'. Yma eto byddai'r clochydd wedi bod yn brysyr yn hel enwau ac arian y cyfranwyr. Yn ôl a ddarllenais, Mallwyd oedd y pentref olaf i gynnal siot cynhebrwng ac mae'n bur debyg mai arferiad oedd hwn i Ogledd Cymru.

Mewn llythyr sydd sydd wedi ei gyhoeddi yng *Nghylchgrawn Cymdeithas Hanes a Chofnodion Meirionnydd 1972*, mae cyfeiriad at gynhebrwng gwraig fferm sydd yn cynnwys cyfeiriad ar yr Wynlws a'r bwyta a'r siot cynhebrwng. Mae yn cyfeirio hefyd am adael arian i'r offeiriad a'r clerc ar y pulpud, ac ar y rhaw wrth y bedd i'r clochydd. Cofier y byddai hwn wedi agor y bedd, cymeredd rhan leisiol yn y gwasanaeth, canu'r gloch cyn ac wedi'r gwasanaeth, cau y bedd a thwtio.

Mae G. J. Williams yn *Hanes Plwyf Ffestiniog* (1882) yn sôn am dalu Shotri:

*(Parhad ar dudalen 13)*